

CYFARFOD GWEITHGOR YMGYSYLLTU 22 MEDI, 2019.
NEUADD BENTREF Y GROESLON AM 7:00 O'R GLOCH.

Yn bresennol ; Cynghorwyr A Patterson, C Bayley, G O Jones, E Willcox, H J Owen, D Davies, B Williams ac A W Jones.

Yn y Gadair ac yn cofnodi : Cyng A W Jones

COFNODION

- 1 Agorwyd y Cyfarfod gyda gair o groeso i'r aelodau.
- 2 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Cynghorydd G Owen a'r Rheolwr.
- 3 Nid oedd un datganiad o fuddiant.
- 4 Nodwyd fod cywirdeb cofnodion y Cyfarfod flaenorol ar 11 Medi wedi ei gadarnhau gan y Cyngor yn ei gyfarfod llawn ar 16 Medi. Gan hynny, bu'r y Gweithgor yn trafod yr argymhellion hynny yn Eitem 4 o'r Cofnodion sydd i gael ei sylw.

4.1 Argymhelliad 11 Medi ynghylch cyfathrebu.

Cytunwyd na ellir sefydlu amserlen ymarferol ar gyfer cyflawni'r gwaith o adroddiad Cwmni Celyn heb ddealltwriaeth yn gyntaf am yr union waith sydd angen ei gwblhau. Fe ddylai'r Gweithgor ystyried amserlen cyn gynted ag y bo modd.

4.2 Argymhelliad 11 Medi am Gwmni Celyn yn rhoi cyflwyniad i'r Gweithgor ynghylch sefydlu tudalen Facebook i'r Cyngor.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Gwmni Celyn am fethu mynychu'r cyfarfod oherwydd amgylchiadau annisgwyl. Ar awgrym Cwmni Celyn, bu'r Gweithgor yn trafod rhestr o eitemau a ddarparwyd gan C Lewis sef :

1. Beth ydych eisiau defnyddio'r dudalen ar ei chyfer? Hysbysu o gyfarfodydd, hysbysiadau statudol, materion o ddiddordeb lleol etc...? Dylid lincio bobl nol at y wefan ar gyfer cofnodion cyfarfodydd ac osgoi atodi nhw i'r facebook.
2. Dwi'n cynghori creu fel 'tudalen' wedi ei chloi i ddechrau fel fod bobl methu rhoi 'posts' i fyny, dim ond y clerc fydd yn gallu gwneud hynny. Ond mae hyn yn rhywbeth i chi drafod, mi all fod yn ddefnyddiol weithiau i bobl eraill roi materion o ddiddordeb i fyny ond wedi dweud hynny mae na 'dudalennau' pentref ar gyfer rhan

fwyaf o'r pentrefi a mae angen i dudalen y cyngor cymuned fod a phwrpas ychydig yn wahanol

3. Cyngori 'cloi' y dudalen fel fod dim modd gyrru negeseuon messenger ond gallwn roi manylion cyswllt y clerc i fyny neu gyfeirio bobl ar y safle gwe os eisiau cysylltu.

4. Pwy sydd angen trefnu i fod yn 'ddefnyddwyr' ar gyfer y dudalen, oes angen rhywun arall heblaw'r clerc?

5. Byddai'n ddefnyddiol i chi edrych ar cwpwl o enghreifftiau - mae cyngor llanddaniel a cyngor llansannan gyda tudalenau facebook

Islaw mae sylwadau'r Gweithgor am yr eitemau uchod :

- (a) Diben y dudalen yw amlygu bodolaeth y wefan a'i gynnwys, creu 'linc' â'r gwefan, cyflwyno gwybodaeth am y Cyngor a'i weithgareddau a dwyn sylw at faterion cyfoes ag arwyddocad i'r gymuned. Rhaid i'r cyfan fod wedi ei osod ar ffurf gryno, dealladwy a diddorol. Nodwyd fod rhaid i'r dudalen fod yn gyson gyfredol ac mae angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol o unrhyw oblygiadau i gyflawni hyn.
- (b) Y Gweithgor yn cymeradwyo'r syniad o gael clo ar waith i atal 'posts' a hynny am gyfnod treial o rhai misoedd i ddechrau ac yna mynd ati i adolygu'r oblygiadau. Nodwyd fod Facebook yn gyfrwng dwy ffordd i gyfnewid gwybodaeth/sylwadau a hwyrach gall y clo danseilio effeithlonrwydd tudalen Facebook i'r Cyngor. Nodwyd gall y cyhoedd gysylltu â'r Cyngor drwy gyfrwng y wefan o'i gyrraedd gyda'r 'linc'.
- (c) Ystyriwyd fod sefydlu 'linc' rhwng tudalen Facebook a gwefan y Cyngor yn hanfodol. Gwnaed sylw y dylai'r Cyngor drefnu i fwrw ymlaen â'i gynllun i uwchraddio'r wefan cyfredol ar gynffon gwaith y Gweithgor ynghylch datblygu tudalen Facebook.
- (ch) Y Cyngor i ddynodi'r Rheolwr fel yr unig un ag awdurdod i ddiweddarau/gosod/dileu manylion ar ei dudalen Facebook.

4.3 Argymhellid 11 Medi am adroddiad blynyddol ar ffurf cylchlythyr.

Dylai adroddiad arfaethedig gan y Cyngor am 2019/2020 gyfeirio at grynodedb gweithredol o adroddiad i'r Cyngor am ymgysylltu gan Gwmni Celyn. Bydd Cyngorwyr G O Jones ac H J Owen yn llunio copi drafft cychwynol o grynodedb gweithredol. Gall y crynodeb gweithredol fynd ar wefan y Cyngor ac ar ffurf bapur i'w weld mewn manau fel llyfrgelloedd ac ati.

Parthed yr adroddiad blynyddol. Dylid cyfyngu'r cyflwyniad dwy-ieithog i'r gofod ar daflen A3 gyda print lliw. Dylid adrodd am yr hyn sydd wedi nodweddu'r flwyddyn gyfredol ac hefyd dwyn sylw am gynlluniau ac ati ar gyfer y flwyddyn nesaf. Tybiwyd y bydd

tebygrwydd yn ei gynnwys i adroddiad blynyddol gan y Rheolwr i gyfarfod blynyddol y Cyngor.

ARGYMHELLION Y GWEITHGOR.

- 1. Y Cyngor yn cymeradwyo'r syniad o greu 'linc' rhwng gwefan y Cyngor a'i dudalen Facebook; os daw hwnnw i fodolaeth.**
- 2 Y Cyngor yn cymeradwyo'r syniad o gael clo yn weithredol i atal 'posts' am gyfnod treial; os daw ei dudalen Facebook i fodolaeth.**
- 3 Y Cyngor yn cymeradwyo'r syniad o awdurdodi'r Rheolwr, a neb arall, i weinyddu a rheoli cynnwys ei dudalen Facebook; os daw hwnnw i fodolaeth.**
- 4 Y Cyngor i addasu adroddiad llawn Cwmni Celyn am yr ymgysylltu er mwyn llunio crynodeb gweithredol i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i roi ar gael mewn manau cyhoeddus addas.**
- 5 Y Cyngor i gymeradwyo'r syniad o gyhoeddi adroddiad blynyddol (ar ffurf cylchlythyr) ym mis ????? ar gyfer 2019/2020 gyda gofyn i'r Gweithgor sefydlu cynnwys a ffurf yr adroddiad erbyn cyfarfod llawn y Cyngor ym mis ???? a hynny fel bod costau am adroddiad ar gael i'r Cyngor erbyn ei gyfarfod llawn ym mis ???**
- 6 Y Cyngor i nodi gall tudalen Facebook a hwyrach Gwefan newydd greu llwyth gwaith sydd heb ei fesur na'i werthuso ar yr adeg yma.**

RECOMMENDATIONS OF THE WORKING GROUP.

- 1. Council endorses the idea of creating a 'link' between the Council website and its Facebook page; if that comes into existence.**
- 2 Council endorses the idea of an active lock to prevent 'posts' for a trial period; if his Facebook page comes into existence.**
- 3 Council endorses the idea of authorizing the Manager, and no other, to administer and manage the content of his Facebook page; if that comes into existence.**
- 4 The Council to modify the full Celyn engagement report into an executive summary to be published on the Council's website and made available in suitable public places.**

5 Council approves the idea of publishing an annual report (in the form of a newsletter) in month ????? for 2019/2020 with the Working Group being asked to establish the content and format of the report by the full Council meeting in month ???? so that report costs are available to the Council by its plenary in month ???

6 Council to note that a Facebook page and possibly a new Website can create workloads that have not been measured or evaluated at this time.